



## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 25 Mehefin 2016 yn y Pales

### 2016.17 Addoli agoriadol a chroeso

Rydym wedi croesawu 37 o Gyfeillion i'r cyfarfod hwn fel a restrwyd ar y daflen bresenoldeb. Mae darnau o Surah 4 o'r Corân wedi cael eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein haddoli agoriadol. Mae D. Bryn Jones yn darparu'r cyfieithu ar y pryd heddiw.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

- Gogledd Cymru: Frank Brown (yn adrodd), Angela Arnold, David Mellor, Rosemary Dixon Nuttall a Catherine James.
- Canolbarth Cymru: Angela Ormrod
- Gororau'r De: Jeff Beatty
- De Cymru: Bydd Jane Harries yn adrodd gan fod Joyce Gooding, y penodai, wedi'i hatal rhag bod yn bresennol oherwydd profedigaeth deuluol.

Ein henaduriaid heddiw yw: Chris Robertson a John Senior.

### 2016.18 *Calon a The Friend*

Mae Jeff Beatty wedi cytuno i ysgrifennu am y Cyfarfod hwn i *Calon a The Friend*.

### 2016.19 Adroddiad am waith gyda Phlant a Phobl Ifainc

Mae Chris Holmquist wedi darparu adroddiad ysgrifenedig lle mae'n amlinellu'r cyfrifoldebau, strwythurau a'r adnoddau mewn cysylltiad â gwaith gyda'n pobl ifainc. Diolchwn am ei fewnbwn ac am ein hatgoffa.

### 2016.20 Cynhadledd *Quaker Life* ar farwolaeth a marw.

Mae Angela Ormrod wedi adrodd ar y gynhadledd hon lle bu'r nifer oedd eisiau ei mynychu'n fwy na'r lleoedd oedd ar gael.

*"Mae barn Crynwyr, â chymdeithas yn ei chrynswth, yn amrywio ar nifer o destunau sy'n ymwneud â diwedd bywyd, gan gynnwys cymorth meddygol i farw, hunanladdiad, beth sy'n digwydd ar ôl marw. Rydym yn croesawu gwaith Cyfeillion sydd eisoes yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn – dyma bynciau y byddai'n fuddiol i bob un ohonom eu hystyried."*

Clywsom am y cwestiynau heriol a godwyd gan y testun a'r gynhadledd. Rydym wedi tueddu i wthio testun marwolaeth a marw i'r cefndir. Cymeradwyir *Love and Loss* Cyfarfod Blynyddol Prydain i Gyfarfodydd. A yw ein Cyfarfodydd yn cynnig awyrgylch agored a chefnogol i ni gael siarad am ein profiadau, gobeithion a'n hofnau? Rydym yn diolch i Angela am ei hadroddiad.

### 2016.21 *Cymru'n Cofio*

Mae Cyfarfodydd eisoes wedi derbyn elfennau o'r adroddiad gan Alan Armstrong ar gyfarfod *Cymru'n Cofio* ym mis Ebrill. Nodwn y paratodau ar gyfer lansio'r arddangosfa *Ffydd ar Waith* addawedig (Cofnod 2015.42) sy'n coffáu gwrthwynebiad cydwybodol ac yn cyhoeddi gwaith heddwch yng Nghymru. Bydd hyn yn digwydd yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni ym mis Awst. Yn y Cofnod hwn, rydym yn estyn eilwaith y gwahoddiad a roddwyd ynghynt i Gyfeillion a Chyfarfodydd i gynnig cynnal yr arddangosfa ar ôl ei lansio. Rydym yn croesawu'r ffaith a nodir yn adroddiad Alan y

bydd y prosiect *Cymru dros Heddwch* yn cynnwys creu cofnod digidol o'r holl Wrthwynebwyd Cydwybodol yng Nghymru. Mae Jane Harries wedi dweud wrthym mai'r Babell Heddwch yn yr Eisteddfod fydd y lleoliad ar gyfer lansio'r arddangosfa Ffydd ar Waith a fydd yn cynnwys arddangosfa fach o baneli heddwch. Y gobaith yw y bydd gweithredu dros heddwch yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael ei gynrychioli hefyd.

## **2016.22 Cyfeillion (a) yn Sioe Frenhinol Cymru a (b) yn yr Eisteddfod Genedlaethol**

(a) Sioe Frenhinol Cymru: mae Jeff Beatty yn cydlynu presenoldeb y Cyfeillion yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ar 18-21 Gorffennaf eleni. Mae rhai gwirfoddolwyr wedi'u casglu ynghyd i gydweithio ag enwadau eraill ym Mhabell Eglwysi Ynghyd ond mae angen rhagor. Bydd cais am fwy o wirfoddolwyr yn cael ei gylchredeg i Gyfarfodydd. Gellir hefyd gysylltu â Jeff Beatty, clerc Cyfarfod Ardal Gororau'r De, yn uniongyrchol i gynnig cymorth.

(b) Mae Hilary Beynon a Stevie Krayner yn cydlynu presenoldeb y Cyfeillion yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni, 29 Gorffennaf i 6 Awst. Yn ogystal â bod yn bresenoldeb gwirfoddol ym Mhabell Eglwysi Ynghyd a goruchwylio dros ei Chornel Dawel, mae nifer o weithgareddau eraill wedi'u cynllunio gan y Crynwyr, gan gynnwys taith gerdded i ofod cyfarfodydd a gardd heddwch Hedd Wen. Mae angen mwy o wirfoddolwyr ar gyfer ein presenoldeb yn yr Eisteddfod a gwahoddir Cyfeillion i gysylltu â Stevie Krayner neu Hilary Beynon o Gwrdd y Fenni.

Y ddarlith gyntaf yr Eisteddfod: Hefyd yn yr Eisteddfod, bydd y gyntaf mewn cyfres o ddarlithoedd a gynlluniwyd gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Bydd hon am 11.30 ddydd Mawrth 2 Awst ym Mhabell y Cymdeithasau II. Bydd Gethin Evans yn traddodi am y cyhoeddwr a'r Crynwyr, John Edward Southall, gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu gan Bryn Jones. Rydym yn annog Cyfeillion i gefnogi'r fenter newydd yma drwy roi cyhoeddusurwydd iddi ac yn gofyn iddynt gefnogi ein darlithydd drwy ddod i'r Eisteddfod. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, bydd yr arddangosfa Ffydd ar Waith yn cael ei lansio yn y Babell Heddwch a bydd *Cymru Dros Heddwch* a Sefydliad Heddwch Cymru'n cynnal digwyddiadau. Bydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n cylchredeg manylion holl ddigwyddiadau'r Eisteddfod sy'n berthnasol i ni i bob Cyfarfod.

## **2016.22 Cyfarfod Blynyddol 2016**

Mae Catherine James wedi adrodd ar y Cyfarfod Blynyddol. Fe'i calonogwyd gan sylw'r Cyfarfod Blynyddol i gael ei arwain gan yr Ysbryd, i brofi ymdeimlad â chonsyrn ac i gefnogi'r rheini wedyn sy'n cyflawni'r gwaith. Roedd yna hanesion ysbrydoledig, gan gynnwys y gwaith mewn ysgolion ar realiti rhyfel, a gychwynwyd gan Gyfarfod Ardal Canolbarth Cymru. A yw rhai Cyfeillion yn llai eglur nag yn y gorffennol ynglŷn â beth mae dealltwriaeth y Crynwyr o Gonsyrn yn ei awgrymu? A yw Cyfeillion yma yng Nghymru'n elwa ar yr eglurder a'r gefnogaeth y gall profi esgor arnynt? Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ei hun yw un fforwm posibl yn y broses brofi, fel y mae ar gyfer cyfathrebu â'r Cyfarfod Dioddefiadau.

## **2016.24 Adroddiad o CYTÛN**

Mae'r adroddiad gan Deborah Rowlands yn ein hatgoffa am ehangder ymgysylltiad eciwmenaidd Cytûn. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau Cristnogol y mae eu haelodau ymhlith mewnfudwyr diweddar i Brydain sydd o dan amgylchiadau anodd. Fforwm gwerthfawr yw Cytûn ar gyfer cael hyd i lais, cyrchu gwybodaeth ac ymgysylltu'n wleidyddol. Gyda 500 mlwyddiant y Diwygiad yn cael ei ddathlu ym mis Hydref 2017, bydd Cytûn yn gosod rhywbeth yn ei le i'w nodi, mewn oes lle mae sawl ffurf ar *eglwys* bellach. Weithiau, bydd Cyfeillion yn canfod nad ydynt yn cael eu hymgorffori yng ngrwpiau Cytûn *ar lefel leol* ac yn y Cyfarfod hwn, rydym wedi cael ein hannog i

ddal ati'n dyner. Fe'n hanogir hefyd i ddefnyddio dogfen QCCIR 'A Spirit-led church' yn ein Cyfarfodydd.

### **2016.25 Cynhadledd Cymru 2050**

Drwy Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a'i gynrychiolydd ar Grŵp Laser Cytûn, David Harries, rydym wedi bod yn ymwybodol o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y Cynulliad. Cylchredodd y Clerc fanylion i Gyfarfodydd am y gynhadledd a drefnwyd gan y Cynulliad ar gynaliadwyedd a'r *Gymru a Garem (Cymru 2050)* a bu nifer o Gyfeillion yn bresennol. Mae Robin Attfield wedi adrodd am gyflwyniadau'r gynhadledd am ymrwymiad i'r dyfodol drwy roi sylw i newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Hysbysir Cyfarfodydd am gynadleddau tebyg sy'n cyd-fynd â'n tystiolaethau a'n diddordebau fel y gellir clywed lleisiau Crynwyr ynddynt.

### **2016.26 Y Cyfarfod Dioddefiadau**

Daeth yr angen i brofi consyrnau'n iawn i'r fei unwaith eto yn adroddiad Gethin Evans am y Cyfarfod Dioddefiadau, fel na ddylid gorlwytho'r Cyfarfod Dioddefiadau a'i wneud yn llai effeithiol o'r herwydd.

### **2016.27 'Mwslimiaid ym Mhrydain: Newidiadau a Heriau**

Heddiw rydym wedi croesawu'r Athro Sophie Gilliat-Ray a Mark Bryant o'r Ganolfan Astudio Islam yn y DU ym Mhrifysgol Caerdydd. Fe'n hatgoffwyd gan Mark yn ei gyflwyniad nad endid syml unigol yw Mwslimiaid ym Mhrydain. Maent yn hanu o gefndiroedd ethnig ac enwadaeth amrywiol, yn amrywiol o ran dehongli ffynonellau crefyddol a manylion defodaeth grefyddol. Sut rydym yn herio creu cysylltiadau negyddol ym meddwl y cyhoedd lle mae Mwslimiaid dan sylw? Sut rydym yn mynd y tu hwnt i groesawu i alluogi eraill i deimlo'n gartrefol? Diolchwn i Mark a Sophie am ein profiad dysgu heddiw.

### **2016.28 Y Pales: edrych ymlaen**

Y Pales yw'r Tŷ Cwrdd hynaf yng Nghymru sydd wedi cael ei ddefnyddio'n ddi-dor. Bydd yn dathlu ei 300 mlwyddiant yn 2017. Mae Jeff Beatty, clerch Cyfarfod Ardal Gororau'r De, wedi rhoi'r diweddaraf i ni ynglŷn â meddwl am ddyfodol y Pales ers y Cyfarfod Dyrnu 24 Hydref y llynedd (Cofnod 2015.43 [iv]). Lle hardd ac ysbrydol yw'r Pales a chyrchfan i ymwelwyr a grwpiau. Mae Cyfaill bellach yn breswyl ym mwthyn y Pales sy'n darparu croeso a gwaith cynnal a chadw. Mae Jeff Beatty wedi siarad am y bwriad i gadw'r Pales ac i estyn ei ddefnydd i'r gymuned ehangach, gyda'r nod o sicrhau ei ddyfodol yn wyneb yr heriau ariannu a chyfyngiadau cynllunio. A allwn ni lunio gweledigaeth sy'n cwmpasu'r Pales a Dolobran, Tŷ Cwrdd hynaf Cymru, efallai gyda phererinion mewn cof? Mae croeso i Gyfeillion o'r tu hwnt i Gyfarfod Ardal Gororau'r De ac yn enwedig Cyfeillion ifainc ddod i gysylltiad â Grŵp Llywio'r Pales gyda golwg ar gynnig eu gwasanaeth iddo.

### **2016.29 Cyflwyno ein hunain i Gyfarfodydd**

Mae Cyfeillion wedi'u hannog heddiw i fyfyrion a nodi pam maent yn dod i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Bydd y canlyniadau'n cael eu hastudio gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glerciaeth a Gweinyddiaeth. Er mwyn i gylch gwaith y Cyfarfod gael ei ddeall yn ehangach yng Nghymru, teimla Catherine James ei bod yn cael ei harwain i ledaenu'r gair drwy deithio a siarad yn gryno â chyrddau lleol. Mae Christine Trevett wedi mynegi parodrwydd i wneud yr un peth. Mae'r Cyfarfod hwn yn cefnogi Catherine a Christine yn eu bwriad i annerch cyrddau lleol ynghyd ag eraill a fyddai hefyd efallai'n cytuno i wneud hyn. Gallai Cyfeillion sy'n mynychu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru hefyd siarad amdano yn eu cyfarfodydd eu hunain a byddai hybu cylchrediad ehangach i *Calon* yn gymorth. Mae rôl Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wrth gynnal cysylltiad rhwng Cyfeillion ar y lefel

leol a sefydliadau Cymru, fel y Cynulliad, yn un bwysig. Wrth drefnu ein Cyfarfodydd, a ddylem ystyried tynnu ar fodel Northymbria gan gyfarfod, er enghraifft, ar ddydd Sul â Chwedd Lleol?

### **2016.30 Trefniadau 2017**

Mae'r trefniadau drafft canlynol ar gyfer 2017 wedi cael eu dwyn gerbron gan Peter Hussey, cynullydd y grŵp Trefniadau, ac maent yn dderbyniol.

- 25 Chwefror, Eglwys Sant Tomas, LLANBEDR PONT STEFFAN, Siaradwr/Testun: Jane Laxton (i'w chadarnhau), Consyrn y Crynwyr ynglŷn â Diddymu Arteithio.
- 24 Mehefin, Neuadd Subud, ABERHONDDU, Siaradwr/Testun: Jessica Metheringham (swyddog ymgysylltu seneddol CBP ), Cyfeillion, ymgysylltu a datganoli (teitl i'w gadarnhau).
- 21 Hydref, Neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Y DRENEWYDD, Siaradwr/Testun: Paula Harvey, Ymddiriedolaeth Dai'r Crynwyr (gyda Chymru mewn golwg).

### **2016.31 Adnoddau**

Mae Ros Morley wedi adrodd am y sefyllfa ynglŷn â deunydd taflenni a defnyddio copïau o *Cyfarfod y Crynwyr a fi* i blant, ynghyd â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i greu dwy faner newydd i'w rhoio. Bydd eu delweddaeth a'u geiriad yn adlewyrchu bywydau a gwerthoedd y Crynwyr yng Nghymru. Yn y man, bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at ein hadnoddau y gellir eu benthyca ar gyfer Cyfarfodydd. Diolchwn i'r grŵp adnoddau, ein swyddog gweinyddol a'r Cyfeillion eraill sy'n cyfrannu am y gwaith y maent yn ei wneud. Mae'r grŵp hwnnw bob amser yn croesawu awgrymiadau ar gyfer deunyddiau i'r Crynwyr a ddylai fod ar gael yn y Gymraeg hefyd.

### **2016.32 Cofnodion rhwng Cyfarfodydd**

- (1) Grwpiau Gorchwyl a Gorffen: yn wythnos gyntaf mis Ebrill 2016, dechreuwyd gwaith gan y ddau Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sy'n ymdrin â materion Clerciaeth a Gweinyddiaeth yng Nghyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gwefan y Cyfarfod ac maent i fod i gau pen y mwdwl erbyn 30 Medi 2016, i adrodd wrth yr Ymddiriedolwyr ac wrth ein cyfarfod ym mis Hydref 2016. Bu oedi cyn dechrau'r grwpiau hyn oherwydd anhawster wrth gael hyd i Gyfeillion i wasanaethu.
- (2) Ar 10 Mai, bu'r Clerc yn mynychu derbyniad ar gyfer dau arweinydd eglwysig Cristnogol o Syria gan gynrychioli'r Crynwyr yng Nghymru.
- (3) Logo: Yn ogystal â'r logos Q ac C (Quakers a Chrynwyr), i'w ddefnyddio gan Gyfarfod Blynyddol Prydain yn unig, mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru hefyd yn defnyddio'r logo Crynwyr/Quakers a grëwyd i'w ddefnyddio yng Nghymru gan ein Cyfaill Huw Meredydd Owen yr ydym yn cydnabod ei waith yma gyda diolch. Eiddo Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yw'r logo yma.
- (4) Er mwyn coffáu bywyd a gwaith AS Batley a Spen a lofruddiwyd yn ddiweddar, Jo Cox, rydym wedi cynnal casgliad i gyfrannu i'r tair elusen a enwebwyd gan ei theulu, sef y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Gobaith Nid Casineb a'r Helmedau Gwyn – staff y gwasanaeth achub heb arfau sy'n gweithredu mewn mannau lle mae trais a dinistr. Rydym yn gofyn i'n trysorydd anfon y rhodd ymlaen.

## **2016.31 Enwebiadau a phenodiadau**

Yn y cyfarfod hwn rydym wedi gofyn am ddau Gyfaill i wasanaethu wrth gael hyd i enwau i'w henwebu i'r Grŵp Enwebiadau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yr enwau sydd wedi'u dwyn gerbron a'u cytuno arnynt yw: Stevie Kraye a Jeff Beatty.

### **Penodiadau gorffenedig**

#### **Cyfarfod Dioddefiadau**

Mae Gethin Evans yn cymryd lle David Jones fel cynrychiolydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru (Cofnod 2016.16). Mae Francis Voelcker wedi cytuno i adrodd wrth Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru am Ddioddefiadau pe na bai Gethin Evans yn gallu gwneud hynny.

**Penodiad Cyfarfod Ardal** Cydlynedd y Cyfeillion ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru, mis Gorffennaf 2016: Jeff Beatty (Cyfarfod Ardal Gororau'r De).

#### **Rhwng Cyfarfodydd**

Cyfaill Cymraeg i wasanaethu ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen am y wefan, o 1 Ebrill hyd at 30 Medi 2016: Rhian Parry.

Cynrychiolydd Eciwmenaidd y Crynwyr i gyfarfod blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y Bala 30 Mehefin: Rhian Parry.

### **Enwebiadau a dderbyniwyd**

Cyfaill Cymraeg i wasanaethu ar y Grŵp Adnoddau o 1 Ionawr 2017 – 31 Rhagfyr 2019: Dafydd Jones.

Cyfaill o Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau, i ddechrau'n syth a hyd at 31 Rhagfyr 2018. D. Bryn Jones.

A bwrw bod y ddau enw hyn yn dderbyniol, penodwyd y Cyfeillion dan sylw.

### **Enwebiadau a geisir**

Cyd-glerc i ddechrau'n syth a hyd at 31.12.2018.

Clerc cynorthwyol i ddechrau'n syth a hyd at 31 Rhagfyr 2016.

Dau ymddiriedolwr ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu o 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2019.

Cyfaill o Ogledd Cymru i wasanaethu ar Grŵp Ffocws Cymru o 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2019.

Archifydd ar gyfer cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu'n syth a hyd at 31 Rhagfyr 2018.

Cyfaill i fod yn gynrychiolydd eciwmenaidd yn Synod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Ngharno 15 Hydref 2016.

---

[Christine Trevett, clerch, Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru](mailto:christinetrevett01@gmail.com)  
[christinetrevett01@gmail.com](mailto:christinetrevett01@gmail.com)

Ffôn. 01443 225732

---

Show kindness to parents and kindred, to orphans and to the destitute, to near and distant neighbours, to those that keep company with you, to the traveller in need ... Al Qur'an Surah 4.36 ... Byddwch yn garedig i rieni a pherthnasau, i'r amddifad a'r anghenus, i gymdogion pell ac agos, i'r rhai sy'n rhannu cymdogaeth, i'r teithiwr anghenus ...

---